WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 360A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan John Roberts a Rob Hathaway o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, a meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant drwy wneud hynny.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Diben yr adroddiad hwn 4

Mae gan ddefnyddwyr farn gadarnhaol ynghylch gwaith yr Awdurdod ac y mae'n cynnal adolygiad sylfaenol o'i ddefnydd o asedau mawr er mwyn sicrhau arbedion. Fodd bynnag, gallai wneud mwy i ddatblygu ei ymagwedd at gynlluniau ariannol tymor canolig 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl 7

Cafodd yr Awdurdod adborth cadarnhaol yn y rhan fwyaf o feysydd, er bod ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r Parc ar gynnydd ymhlith ymwelwyr 9

Cynhaliodd yr Awdurdod werthusiad o'i berfformiad, ac adrodd arno, a chyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol 11

Yn rhan o'i ymagwedd at ymdrin â thoriadau cyllid, mae'r Awdurdod yn barod i gynnal adolygiad sylfaenol o'r modd y mae'n defnyddio rhai o'i brif asedau, er bod lle i ddatblygu ei gynlluniau ariannol ar gyfer y tymor canolig 13

Mae'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch materion cynllunio yn agwedd gadarnhaol ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod, ac mae ganddo systemau ar waith i gefnogi datblygu cynaliadwy. Wrth reoli perfformiad, fodd bynnag, ni wneir defnydd digonol o ddata cymharus, ac ni chaiff cynnydd ei asesu'n ddigonol yn erbyn targedau, yn enwedig yng nghyswllt ei wasanaeth cynllunio 17

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 19

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2014-15 20

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o berfformiad yn 2013-14 22

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 24

Atodiad 5 – Argymhellion adroddiad cenedlaethol 2014-15 26

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cynlluniau gwella a threfniadau adrodd cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol i sicrhau gwelliant parhaus.[1] Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff o Swyddfa Archwilio Cymru. Ceir mwy o wybodaeth yn Atodiad 1 am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ym maes llywdraeth leol.

2 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith archwilio a gwblhawyd yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) ers cyhoeddi'r Adroddiad Gwella blaenorol ym mis Mai 2014. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau allweddol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Awdurdod. Mae'r casgliadau ynddo yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd gan gyrff adolygu allanol perthnasol o fewn yr Awdurdod, lle bo'n briodol, ac oni nodir fel arall, maent yn adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg cyflawni'r gwaith hwnnw.

3 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn ei adroddiad a yw o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15.

4 Ni ddylid ystyried y datganiad hwn yn ddatganiad pendant ynghylch sefyllfa'r sefydliad, nac yn rhagfynegiad o'i lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn, hyd y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

5 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Cewch rannu eich safbwyntiau â ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Dyletswyddau a gofynion a gynhwysir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Mae gan ddefnyddwyr farn gadarnhaol ynghylch gwaith yr Awdurdod ac y mae'n cynnal adolygiad sylfaenol o'i ddefnydd o asedau mawr er mwyn sicrhau arbedion. Fodd bynnag, gallai wneud mwy i ddatblygu ei ymagwedd at gynlluniau ariannol tymor canolig

6 Yn 2013-14, canfuom fod yr Awdurdod wedi derbyn adborth cadarnhaol yn y rhan fwyaf o feysydd, er bod ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r Parc ar gynnydd ymhlith ymwelwyr. Yn benodol:

- a parhaodd yr Awdurdod i dderbyn adborth cadarnhaol gan staff, aelodau a rhanddeiliaid ar faterion a oedd yn ymwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth; ac
- b er bod pobl yn canmol canolfannau'r Awdurdod, ceir llai o ymweliadau â hwy, a mwy o ddefnydd o wefan yr Awdurdod.

7 Canfuom hefyd:

- a fod yr awdurdod wedi cynnal gwerthusiad o'i berfformiad a chyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol; a
- b bod yr Awdurdod, yn rhan o'i ymagwedd at ymdrin â thoriadau cyllid, yn barod i gynnal adolygiad sylfaenol o'r modd y mae'n defnyddio rhai o'i brif asedau, er bod lle i ddatblygu ei gynlluniau ariannol ar gyfer y tymor canolig.

8 Yn rhan o'n gwaith parhaus gyda phob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru er mwyn asesu i ba raddau y maent yn darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon am lai o arian, canfuom fod y broses o wneud penderfyniadau ynghylch materion cynllunio yn agwedd gadarnhaol ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod, a bod ganddo systemau ar waith i gefnogi datblygu cynaliadwy. Wrth reoli perfformiad, fodd bynnag, ni wneir defnydd digonol o ddata cymharus, ac ni chaiff cynnydd ei asesu'n ddigonol yn erbyn targedau, yn enwedig yng nghyswllt ei wasanaeth cynllunio.

9 O ystyried yr uchod, ac yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, a'r gwaith hwnnw'n unig, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol yn ystod 2015-16.

## Argymhellion

10 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod â'r heriau o'i flaen, byddai'n anarferol pe na baem yn cael hyd i agweddau y gellid eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu cyflwyno i'r Awdurdod, byddwn yn disgwyl iddo weithredu arnynt ac yn mynd ar drywydd yr hyn sy'n digwydd;
- b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae materion ac iddynt lai o flaenoriaeth, a ystyrir yn gynigion gwella, wedi'u cynnwys yn ein hadroddiadau eraill, ond efallai y cyfeirir atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

12 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a allai fod yn berthnasol i awdurdodau yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ym maes Llywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion perthnasol a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014-15 yn Atodiad 5.

13 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn, ond mae un cynnig ar gyfer gwella wedi'i nodi isod.

| Chynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Datblygu dull manylach, ond cymesur, o gynllunio'n ariannol ar gyfer y tymor canolig, a all helpu'r Awdurdod i ymateb yn effeithiol i ystod o sefyllfaoedd posibl lle ceir llai o gyllid. |

# Adroddiad manwl



14 Yn yr adran hon o’r adroddiad, edrychir yn ôl ar berfformiad yr Awdurdod yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014. Rydym wedi canolbwyntio ar yr agweddau hynny a nodwyd gan yr Awdurdod yn amcanion gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol, ac ar y dystiolaeth sydd ar gael a gasglwyd gan yr Awdurdod a allai ddangos a gyflawnwyd yr amcanion hyn ai peidio. Caiff unrhyw amcanion gwella a ganolbwyntiai ar faterion yn gysylltiedig â’i wasanaeth cynllunio eu trafod yn gryno yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, yn yr adran sy’n rhoi crynodeb o’r gwaith penodol a gyflawnwyd gennym yn gysylltiedig â gwasanaeth cynllunio’r Awdurdod.

15 I raddau helaeth, parhaodd amcanion gwella’r Awdurdod o dan y Mesur Llywodraeth Leol heb eu newid am amryw o flynyddoedd. Mae’r ymagwedd hon yn dderbyniol, gan fod yr Awdurdod wedi adolygu’r amcanion hynny’n flynyddol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun y toriadau cyllidebol cyfredol, a’r toriadau sydd ar ddod, mae’r Awdurdod wedi achub ar y cyfle i adolygu ei amcanion hirsefydlog ac, ar ôl cynnal ymgynghoriad eang, wedi mabwysiadu amcanion diwygiedig ar gyfer 2015-16. Mae’r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- a cyfathrebu;
- b cynlluniau a pholisïau;
- c iechyd a lles;
- ch partneriaeth a rheoli gwirfoddolwyr; a
- d heriau ariannol a rheoli perfformiad.

## Cafodd yr Awdurdod adborth cadarnhaol yn y rhan fwyaf o feysydd, er bod ffyrdd newydd o ymgysylltu â'r Parc ar gynnydd ymhlith ymwelwyr

### Parhaodd yr Awdurdod i dderbyn adborth cadarnhaol gan staff, aelodau a rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth

16 Parhaodd yr Awdurdod i weithio tuag at sicrhau bod pobl yn deall ei rôl a'i gyfrifoldebau. Roedd pob Cyngor Cymuned a rhanddeiliad a gafodd ei gynnwys yn arolwg yr Awdurdod yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth dda ynghylch hyn, ynghyd â 90 y cant o bobl o grwpiau dan anfantais a aeth i ddigwyddiadau a drefnwyd gan yr Awdurdod. Roedd y canlyniadau hyn yn tarddu'n rhannol o waith brwd yr Awdurdod i ymgysylltu â'r grwpiau dan sylw, gan gynnwys cefnogaeth menter MOSAIC[2] a hybu gweithgareddau o fewn y Parc i bobl anabl a phobl o gefndiroedd dan anfantais.

17 Gwelwyd yr un gwelliannau yn y cynnydd o 91 i 98 yng nghanran y staff a chanddynt ddealltwriaeth dda o'r modd yr oedd eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion yr Awdurdod. Roedd safbwynt y staff hefyd yn fwyfwy cadarnhaol ynghylch nifer y cyfleoedd yr oeddent yn eu cael i ddatblygu eu sgiliau, ac ynghylch pa mor fodlon yr oeddent â lefel yr arweiniad a'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chael gan eu rheolwyr. Dangosai arolwg staff yr Awdurdod fod 43 y cant o'r staff yn fodlon iawn â lefel yr arweiniad a'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chael gan eu rheolwyr llinell, a bod 49 y cant arall yn fodlon â hynny. Dywedodd holl aelodau'r Awdurdod a ymatebodd i arolwg mewnol eu bod yn derbyn adroddiadau amserol ac effeithiol ar gynnydd yr Awdurdod tuag at gyflawni amcanion gwella.

### Er gwaethaf y sgoriau uchel a roddwyd i ganolfannau'r Awdurdod, ceir llai o ymweliadau â hwy, a defnydd cynyddol o wefan yr Awdurdod

18 Mae'r ffaith na wnaed unrhyw gwynion ffurfiol i'r Awdurdod ynghylch Canolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod, a'r cynnydd sylweddol, o 73 i 95, yng nghanran yr ymwelwyr a oedd yn fodlon iawn â hwy yn dangos bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn parhau i wella.

19 Fodd bynnag, nid oes cynnydd mewn niferoedd i gyd-fynd â'r cynnydd mewn ansawdd. Yn wir, yn ystod 2013-14, parhaodd y swm o arian yr oedd pob ymwelydd yn ei wario yng Nghanolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod i ostwng. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r gostyngiad parhaus yn nifer yr ymwelwyr â Chanolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod. Yn sgil y canlyniadau hyn, ynghyd â'r gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael i'r holl awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru, mae'r Awdurdod wedi cychwyn adolygiad o'i Ganolfannau Gwybodaeth.

20 Mae'n bosibl mai canlyniad uniongyrchol y cynnydd yn y defnydd o ddulliau eraill o gasglu gwybodaeth ymhilth y cyhoedd yw peth o'r gostyngiad i'r defnydd o Ganolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod. Cefnogir y farn hon gan gynnydd o bron i 22 y cant yn nifer yr ymwelwyr unigryw â gwefan yr Awdurdod. Er gwaethaf y gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl a adroddodd am broblemau technegol, cafwyd hefyd ostyngiad sylweddol yng nghanran y bobl a fynegai lefel uchel iawn o fodlonrwydd ag ansawdd ac ystod y gwasanaethau electronig sydd ar gael.

2 Prosiect a gynlluniwyd er mwyn annog pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i fanteisio mwy ar ddarpariaeth y Parciau Cenedlaethol.

21 Er nad yw’r canlyniadau hyn ond yn seiliedig ar nifer cymharol fach o ddefnyddwyr a ddewisodd ymateb, mae’r Awdurdod yn cydnabod bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar-lein anghenion a disgwyliadau mwyfwy soffistigedig. O ganlyniad i hyn, dechreuodd yr Awdurdod y broses o ail-ddylunio ac adolygu cynnwys ei wefan, ac mae’r wefan newydd bellach yn weithredol.

## Cynhaliodd yr Awdurdod werthusiad o'i berfformiad, ac adrodd arno, a chyhoeddi ei gynlluniau ar gyfer gwella yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol

22 Ym mis Rhagfyr 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i'r Awdurdod yn cadarnhau ei fod wedi archwilio Cynllun Gwella'r awdurdod yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a Chod Ymarfer Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, roedd y dystysgrif hefyd yn datgan bod yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8), a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

23 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

a o ran cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;

b o ran cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;

c drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru ac at ddangosyddion perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun; ac

ch o ran cyrraedd unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun.

24 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai gael ei bennu drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

25 Ym mis Mehefin 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif i'r Awdurdod yn cadarnhau bod Cynllun Gwella'r Awdurdod wedi'i archwilio'n unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a Chod Ymarfer Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad i'r archwiliad hwnnw, roedd y dystysgrif yn datgan bod yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a hynny i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

26 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

a wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;

b gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a

c gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

27 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am yr wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

28 Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau na'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

## Yn rhan o’i ymagwedd at ymdrin â thoriadau cyllid, mae’r Awdurdod yn barod i gynnal adolygiad sylfaenol o’r modd y mae’n defnyddio rhai o’i brif asedau, er bod lle i ddatblygu ei gynlluniau ariannol ar gyfer y tymor canolig

29 Fel y nodwyd yn AGB y llynedd, roedd pob un o’r tri awdurdod parc cenedlaethol yn wynebu toriadau sylweddol i’w cyllideb yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15 a thu hwnt. Ar gyfer 2015-16, mae’r Awdurdod wedi cael gwybod y bydd y gostyngiad fymryn yn is na’r 4.3 y cant yr oedd yr Awdurdod wedi cyllidebu ar ei gyfer. Mae hyn yn gyfwerth â chynnydd o £33,000 yn ychwanegol at y swm a ragwelwyd, sy’n codi eto i £43,000 ar ôl ystyried effaith yr ardoll. Fodd bynnag, ceir gostyngiad o oddeutu £8,500 i’r ffigur hwn yn sgil y gofyniad i ariannu rhaglen beilot i fentora’r aelodau.

30 Fodd bynnag, yn y llythyr a hysbysai’r Awdurdod ynglŷn â’r ffigur hwn, mynegwyd yn glir ei bod hi’n bosibl y bydd grant refeniw’r Awdurdod, ynghyd â’r ddau awdurdod parc cenedlaethol arall yng Nghymru, yn gostwng yn ystod y flwyddyn, gan ychwanegu elfen o ansicrwydd. Roedd y gostyngiad hwn yn ystod y flwyddyn wedi’i gynnwys yn nyraniad cyllid yr Awdurdod ar gyfer 2014-15. Dilëwyd dyraniad cyfalaf yr Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15. Roedd hyn o ganlyniad i ostyngiad yn ystod y flwyddyn i’r gyllideb refeniw, a drosglwyddwyd wedi hynny gan Lywodraeth Cymru i ddyraniad cyfalaf yr Awdurdod er mwyn lleihau’r effaith ar gyllid ardollau’r Awdurdod hyd yr eithaf.

31 Yn hwyr yn 2014-15, rhoddodd Llywodraeth Cymru grant mynediad gwerth £148,000 i’r Awdurdod, a oedd yn cynnwys elfen o gyllid cyfalaf. Defnyddiodd yr Awdurdod y grant hwnnw i leihau’r gostyngiadau cyllid mewn meysydd eraill. Nid yw Llywodraeth Cymru’n darparu grant mynediad[3] arall ar gyfer 2015-16.

32 Mae Cronfa Datblygu Cynaliadwy’r Awdurdod wedi’i chadw ar £200,000 ar gyfer 2015-16. Nid yw’r gronfa hon wedi’i chlustnodi, fel y gwnaed yn 2014-15, ac mae’r Awdurdod wedi penderfynu defnyddio £43,000 o’r gyllideb honno er mwyn helpu i fantoli ei gyfrifon, gyda golwg ar ddychwelyd y swm hwnnw pan ddaw arbedion yn sgil y newidiadau y mae’n eu gweithredu yn ei ganolfannau gwybodaeth.

33 Mae Rhagolygon Ariannol Tair Blynedd, a ystyrir gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr bob blwyddyn fel arfer, yn llywio cynlluniau ariannol yr Awdurdod. Oherwydd problemau staffio o fewn yr adran gyllid (gweler paragraff 37), ni chafodd y rhagolygon hyn eu rhannu â’r aelodau arweiniol hyd canol mis Ionawr 2015, cyn cael eu cyflwyno gerbron cyfarfod llawn o’r Awdurdod ar 4 Chwefror 2015. Fodd bynnag, nid oes digon o fanylion naratif ar gyfer ymagwedd yr Awdurdod at gynllunio ariannol yn y tymor canolig, mewn perthynas â’r rhagdybiaethau a wnaed a’r pwysau y mae’r Awdurdod yn ei wynebu o ran cyllid, gan gynnwys yr effaith bosibl ar ei gronfeydd. Adroddir ar rai o’r agweddau hyn ar lafar wrth yr aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod, ond ni chânt eu nodi mewn dogfennau ategol y gellid eu rhannu wedyn ar raddfa ehangach, ac y gellid eu diweddaru wrth i amgylchiadau newid. Er bod cryn ansicrwydd ynglŷn â lefelau cyllid holl awdurdodau parc cenedlaethol Cymru yn y dyfodol, mae’n gynyddol bwysig i’r Awdurdod gael cynllun ariannol tymor canolig (CATC) sy’n cynnwys ystod o senarios, fel ffordd o gynllunio’n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Byddai CATC mwy cynhwysfawr o gymorth i’r Awdurdod wrth iddo symud tuag at ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y tymor hwy.

3 Grant gan Lywodraeth Cymru sy’n canolbwyntio ar hyrwyddo mynediad ehangach i gefn gwlad ac ardaloedd arfordirol.

34 Manteisiodd yr Awdurdod ar nifer o enillion cyflym er mwyn torri'r gyllideb yn 2014-15, er nad oedd yr enillion hynny'n rhai hawdd o reidrwydd. Serch hynny, mae'n cydnabod y bydd yn wynebu llawer mwy o her wrth ymdrin â thoriadau cyfredol i'r gyllideb, a thoriadau i'r gyllideb yn y dyfodol. Cadwyd pedair swydd yn wag, a gwnaed trefniadau diswyddo ar gyfer saith swydd arall. Roedd pedwar o'r diswyddiadau hyn yn wirfoddol, a'r tri diswyddiad arall yn orfodol. Sefydlodd yr Awdurdod is-bwyllgor i ymdrin ag unrhyw apeliadau yn erbyn diswyddiadau a materion yn gysylltiedig â thaliadau wrth ddiswyddo. Ni fu ond yn rhaid ymdrin ag un apêl hyd yma, ac mae'r apêl honno bellach wedi'i datrys.

35 Roedd y newidiadau eraill i'r staff fu o gymorth i leihau costau yn cynnwys:

a cyfuno swyddi'r Pennaeth Eiddo a'r Swyddog Eiddo;

b dileu un swydd derbynnydd ym Mhlas Tan y Bwlch lle'r oedd gweithiwr wedi dioddef salwch hirdymor, a throi'r trefniadau llanw dros dro yn drefniadau parhaol;

c peidio llenwi swydd wag uwch ddarlithydd, ond cadw rhai o'r arbedion fel bo modd prynu cymorth arbenigol yn ôl yr angen; ac

ch achub ar y cyfle, yn sgil y ddwy swydd warden wag, i ailasesu ffyrdd eraill o ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys penodi ar radd is.

36 Pan ddaeth y prif weithredwr presennol i'w swydd ym mis Ebrill 2014, penderfynwyd peidio llenwi swydd y Cyfarwyddwr Rheoli Tir a ddaeth yn wag yn sgil hynny, ond adolygu'r sefyllfa yn nhymor yr hydref 2014. Casgliad yr adolygiad hwnnw oedd y dylid dileu'r swydd a rhannu ei chyfrifoldebau rhwng y prif weithredwr a'r cyfarwyddwyr eraill. Gan fod staff yn cael eu diswyddo, nid oes unrhyw awydd ymhlith y cyfarwyddwyr y mae hyn wedi effeithio arnynt i wneud cais i ailraddio'u swydd. Cafodd rhai diswyddiadau posibl eu gohirio, ond mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd angen adolygu rhai o'r rhain wrth i doriadau pellach i'r gyllideb effeithio ar yr Awdurdod.

37 Ymgynghorodd yr Awdurdod â'r staff ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i delerau ac amodau cyflogaeth. Cynhaliwyd pleidleisiau yn dilyn hynny ymhlith aelodau'r undebau llafur, a'r canlyniad oedd cytundeb bras i dderbyn y cynigion. Bu absenoldeb staff yn broblem sylweddol yn adran gyllid yr Awdurdod. Bu'r swyddog taliadau ar absenoldeb salwch yn ystod chwarter olaf 2013-14, a bu tri o'r pedwar aelod o staff o fewn yr adran gyllid ar absenoldeb salwch yn ystod 2014-15. Llwyddwyd i lenwi'r bwlch yn rhannol drwy ddefnyddio staff mewnol a staff asiantaeth. Er hynny, roedd y prinder staff yn ffactor allweddol a arweiniodd at ohirio gweithredu'r modiwl fyddai'n galluogi gwasanaethau unigol i godi archebau prynu a phrosesu anfonebau'n electronig.

38 Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ym mharagraff 19, cyfeiriwyd at fwriad yr Awdurdod i adolygu ei ddefnydd o ganolfannau gwybodaeth. Comisiynwyd adroddiad gan ymgynghorydd er mwyn edrych ar wahanol opsiynau a dechreuodd yr aelodau gynnal adolygiad o'r adroddiad hwn ym mis Tachwedd 2014. Nid yw yr un o'r opsiynau a nodir yn yr adroddiad hwnnw wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol eto, ond penderfynodd yr aelodau y dylid agor canolfannau yn dymhorol yn unig. Ceid rhai arbedion yn sgil y newid hwn, ond byddai angen cyfraniad o £40,000 o hyd ar gyfer 2015-16, a gymerir o gronfa datblygu cynaliadwy'r Awdurdod. Dewisodd yr Awdurdod y dull hwn yn rhannol fel ffordd o brynu amser cyn symud tuag at opsiwn mwy parhaol a allai gynnwys y gallu i gynhyrchu mwy o incwm.

39 Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried opsiynau i newid y defnydd a wneir o Blas Tan y Bwlch[4] (Y Plas). Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys newid y dyddiadau pan fydd yr Awdurdod yn defnyddio'r Plas fel bo modd rhyddhau dyddiadau ychwanegol er mwyn cynhyrchu mwy o incwm. Ceir prinder capasiti mewn lleoliadau'n gysylltiedig â chyrsiau a gynhelir gan y Cyngor Astudiaethau Maes, a bu adegau yn y gorffennol pan nad oedd y Plas ar gael er mwyn manteisio ar y cyfle i greu incwm yn sgil hyn[5].

40 Yn ddiweddar, argymhellodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol y dylid cynyddu'r taliadau i Gadeirydd yr Awdurdod, ei Is-gadeirydd a chadeiryddion dau bwyllgor. Mae'r unigolion sydd yn y swyddi hynny ar hyn o bryd wedi penderfynu peidio derbyn y cynnydd hwn, yn rhannol oherwydd y byddai gwneud hynny'n cyfleu'r neges anghywir wrth staff yr Awdurdod, ar adeg pan geir cyfyngiadau ar y gyllideb.

41 Yn ystod haf 2014, penderfynodd yr Awdurdod wneud cais i adnewyddu ei Statws Siarter ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau[6]. Pan gyflawnwyd ein gwaith, nid oedd cyfarfod datblygu personol wedi cael ei gynnal â phob un o'r aelodau. Yn dilyn hynny, mabwysiadodd yr Awdurdod ddull a oedd yn cadw'r system wreiddiol lle byddai Cadeirydd yr Awdurdod yn cynnal y cyfarfodydd hyn ag aelodau mewn swyddi allweddol. Fodd bynnag, y Pennaeth Personél fyddai'n cynnal y cyfarfodydd hyn yn y dyfodol.

## Mae agwedd yr Awdurdod at ddiogelu a hybu'r Gymraeg yn parhau i fod yn gadarnhaol

42 Cafodd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) ei chreu yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ar 31 Mawrth 2015, daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

4 Canolfan Astudiaethau Amgylcheddol yr Awdurdod, lle cynhelir cyrsiau amrywiol yn gysylltiedig â chefn gwlad a'r Parc, y mae rhai ohonynt yn gyrsiau preswyl.
5 Elusen addysg amgylcheddol sy'n cynnig cyfleoedd i bobl o bob oedran a gallu gael darganfod, archwilio a deall yr amgylchedd.
6 Dyfarnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

43 Mae'r Comisiynydd yn cydweithio â'r holl awdurdodau yng Nghymru i archwilio cynlluniau iaith a chynghori ynghylch sut i'w gweithredu. Cyfrifoldeb awdurdodau yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn rhoi ymateb ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach fel bo'r angen.

44 Adroddodd y Comisiynydd mai siaradwyr Cymraeg yw'r mwyafrif o weithlu'r Awdurdod o hyd. Roedd y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd a hysbysebwyd yn ystod 2013-14. Penodwyd siaradwr Cymraeg bob tro wrth benodi. Cynhaliodd yr Awdurdod asesiadau effaith cydraddoldeb, gan gynnwys y Gymraeg, ar gyfer pob polisi newydd neu ddiwygiedig neu ar gyfer pob cynnig a fabwysiadwyd yn dilyn hynny.

## Mae'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch materion cynllunio yn agwedd gadarnhaol ar drefniadau llywodraethu'r Awdurdod, ac mae ganddo systemau ar waith i gefnogi datblygu cynaliadwy. Wrth reoli perfformiad, fodd bynnag, ni wneir defnydd digonol o ddata cymharus, ac ni chaiff cynnydd ei asesu'n ddigonol yn erbyn targedau, yn enwedig yng nghyswllt ei wasanaeth cynllunio

45 Yn rhan o'n gwaith parhaus i adolygu gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod, achubwyd ar y cyfle i archwilio ymagwedd yr Awdurdod at lywodraethu, rheoli perfformiad a datblygu cynaliadwy. Ceir crynodeb o'n canfyddiadau yn y paragraffau a ganlyn, a lle bo'n berthnasol, fe'u defnyddiwyd i oleuo agweddau eraill ar yr AGB hwn.

46 Mae'r ffaith bod cymysgedd o aelodau wedi'u cynnwys o fwy nag un cyngor ynghyd ag enwebeion gan Lywodraeth Cymru yn gwella trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, gan helpu i sicrhau bod ei waith yn anwleidyddol. Mae'r aelodau wedi dangos eu bod yn barod i wneud penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau gwasanaeth cynllunio mwy cost-effeithlon. Er enghraifft, yn ddiweddar cyflwynodd yr Awdurdod daliadau cyn ymgeisio am gyfnod prawf.

47 Er bod y gyfran o geisiadau cynllunio sydd yn gorfod cael eu cyflwyno gerbron Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod wedi gostwng, mae'n dal yn uwch nag yn sawl rhan o Gymru, gan awgrymu bod lle i'r Awdurdod adolygu ei ymagwedd at ddirprwyo er mwyn gwella effeithlonrwydd. Fodd bynnag, mae'r aelodau'n gwneud defnydd cynnil a phriodol o'u pwerau i alw ceisiadau cynllunio i mewn er mwyn penderfynu yn eu cylch. Mae'r penderfyniadau a wneir, o'u barnu yn ôl achosion lle bydd aelodau'n gwrthdroi penderfyniadau a lle amddiffynnir apeliadau, yn dda o gymharu â tharged yr Awdurdod ei hun, ac o gymharu â gweddill Cymru.

48 Defnyddir system Ffynnon a Chynllun Gwaith Corfforaethol yr Awdurdod i gefnogi Rheoli Perfformiad o fewn yr awdurdod. Caiff data ar berfformiad ei fewnbynnu i system Ffynnon, gan olygu bod modd cynhyrchu adroddiadau pan fydd angen. Mae system Ffynnon yn cynnwys y gallu i bob un o'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru rannu data ar berfformiad ar ystod o themâu cyffredin, gan alluogi rhywfaint o feincnodi cyfyngedig rhwng yr awdurdodau hyn. Mae'r Cynllun Gwaith Corfforaethol yn pennu'r tasgau penodol a nodwyd yn bwysig er mwyn gweithio tuag at gyflawni amcanion blynyddol yr Awdurdod. Yn ddiweddar, cyflwynodd y Prif Weithredwr newydd Gyfarfodydd Perfformiad rheolaidd rhyngddo ef ei hun a'r holl Gyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Adran.

49 Bob chwarter, bydd Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r (PPA) Awdurdod yn edrych ar adroddiadau Ffynnon, a hefyd ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gwaith Corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau chwarterol i'r PPA yn manteisio ar allu Ffynnon i gynnwys data cymharol yn ystod y flwyddyn, nac ychwaith yn cynnwys digon o wybodaeth er mwyn asedau cynnydd yn erbyn targedau.

50 Mae Llywodraeth Cymru'n tynnu'r gefnogaeth ar gyfer system Ffynnon yn ôl ac yn cyflwyno system well, er nad yw'r system honno bellach ar gael yn rhad ac am ddim i awdurdodau lleol. Mae'r Awdurdod yn ystyried ei opsiynau ynglŷn â'r ffordd orau o ymateb i'r newid hwn, yn enwedig ar adeg lle mae ei gyllid yn gostwng. Un opsiwn y mae'r Awdurdod yn ei ystyried yw dychwelyd i system daenlenni fewnol, er y byddai anfantais yn gysylltiedig â hyn, sef lleihau gallu holl awdurdodau'r parciau i rannu gwybodaeth 'fyw' am berfformiad.

51 Er bod gwybodaeth am berfformiad yn cael ei monitro'n rheolaidd gan staff a'i hadrodd wrth yr aelodau, gallai'r Awdurdod wneud mwy i ddeall sut y gellid gwella perfformiad ei wasanaeth cynllunio drwy gymharu ag eraill, a dysgu yn sgil eu profiadau. Ceir trafodaeth fanylach ar yr agwedd hon, ynghyd â mwy o wybodaeth am gymharu costau, yn ein hadroddiad sydd ar ddod ar wasanaeth cynllunio'r Awdurdod.

52 Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy mewn sawl ffordd. Fel yn achos pob awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru, mae dyletswydd statudol ar yr Awdurdod i feithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Roedd Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod yn cynnwys gofyniad i asesu capasiti amgylcheddol ac, yn 2013-14, rhoddodd yr Awdurdod ganiatâd i adeiladu 28 o dai fforddiadwy, ddwywaith yn fwy na'r nifer y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer yn y ddau awdurdod parc cenedlaethol arall gyda'i gilydd.

53 Mae'r Awdurdod wedi defnyddio Cynllun Seren i ardystio ei System Rheoli Amgylcheddol (SRhA). Mae'r SRhA yn helpu'r Awdurdod i wella'i ymagwedd at ailgylchu, lleihau gwastraff, arbed ynni a nodi a rheoli effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd. Mae'r Awdurdod yn defnyddio ei Gronfa Datblygu Cynaliadwy[7], a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, i gyfrannu at gost prosiectau lleol a all wella ansawdd bywyd a chadernid cymdeithasol cymunedau lleol. Yn 2013-14, rhoddodd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy gefnogaeth i weithredu 37 o brosiectau newydd sy'n hybu cadwraeth, cynaliadwyedd a thraddodiadau diwylliannol Eryri. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys Canolfan Gynghori yn y Bala, Siop Ogwen ym Methesda a symposiwm Pan-geltaidd ym Mhlas Tan y Bwlch. Yn ystod 2013-14, gwariwyd cyfanswm o £232,000 ar brosiectau gyda'r nod o barhau i wella ansawdd bywyd o fewn y Parc a thu hwnt.

7 Fe'i gelwir yn Gronfa Arbrofol Eryri (CAE) gan yr Awdurdod.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, awdurdodau parc cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Cwblhawyd y gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, awdurdodau parc cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad blaengar o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol o'r graddau y mae awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi crynodeb o'i waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion perthnasol, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2014-15

## Tystysgrif

Tystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) y unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a hynny i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio'i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni unrhyw safon perfformiad a osodwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl dyddiad arall a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am yr wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio i raddau digonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth, nac ychwaith ynghylch a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod felly'n cynnwys adolygiad o'r cynllun er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd yr Awdurdod wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Jane Holownia, Rheolwr
John Roberts, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o berfformiad yn 2013-14

## Tystysgrif

Tystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8), a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i raddau digonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

- wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- wrth gyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun; ac
- wrth gyrraedd unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad a osododd ar ei gyfer ei hun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai gael ei bennu drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, y mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 ac 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn canfod a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf o'r farn fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â gofynion statudol a nodwyd yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

I ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod Awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio i raddau digonol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch cyflawnder na chywirdeb yr wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd gwaith asesu arall a gyflawnir gennyf o dan adran 18 o'r Mesur yn archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad felly'n cynnwys adolygiad o gyhoeddiad yr Awdurdod er mwyn canfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd yr Awdurdod wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 o'r Mesur fel yr unig ffordd o ganfod yr holl wendidau a'r holl gyfleoedd ar gyfer gwella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi i: Carl Sargeant, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Jane Holownia, Rheolwr
John Roberts, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Mr E Williams
Y Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

Annwyl Emyr

**Llythyr Archwilio Blynyddol - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig, a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Mae Awdurdod y Parc wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb Awdurdod y Parc yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chynnal adolygiad parhaus o drefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau Awdurdod y Parc i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau; a'r
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 29 Medi 2014, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion Awdurdod y Parc. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Cafodd y prif faterion a ddeilliai o'm harchwiliad o'r cyfrifon eu hadrodd wrth aelodau Awdurdod y Parc yn fy adroddiadau ar fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 24 Medi 2014. Dyma'r prif faterion a oedd yn codi:

- Cyhoeddwyd drafft y datganiadau ariannol ddiwrnodiau yn hwyrach na'r dyddiad terfyn statudol, ac mae angen i Awdurdod y Parc sicrhau nad yw hyn yn digwydd yn y blynyddoedd nesaf.

- Nid oedd unrhyw 'gamddatganiadau heb eu cywiro', ond roedd y datganiadau'n cynnwys nifer fach o gamddatganiadau dibwys a gywirwyd gan y rheolwyr.

- Darparwyd gwybodaeth ddefnyddiol i ni yn brydlon, ac ni chyfyngwyd ar ein gwaith. Roedd ansawdd y papurau gwaith a ddarparwyd a chydweithrediad y swyddog cyllid o safon uchel.

- Adroddwyd un gwendid gennym o ran rheolaethau mewnol mewn perthynas â gwaith cysoni incwm meysydd parcio am gyfnod yn ystod y flwyddyn.

## Yr wyf yn fodlon bod gan Awdurdod y Parc drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Seiliwyd fy ystyriaeth o drefniadau Awdurdod y Parc i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar y gwaith archwilio cyfrifon a gyflawnwyd. Dibynnwyd hefyd ar waith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos hyd yma, neu lle gellid cyflwyno gwelliannau, wrth gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae Awdurdod y Parc yn parhau i wynebu heriau ariannol oherwydd y gostyngiadau a ragwelir i'r incwm y mae'n ei dderbyn drwy grant parciau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro ac rwy'n fodlon â'r camau y mae Awdurdod y Parc wedi'u cymryd, ac yn parhau i'w cymryd, er mwyn ymdrin â'r pwysau y mae'n eu wynebu.

## Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2014

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â'r swm cytunedig a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol. Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae mwy o wybodaeth yn cael ei pharatoi yn gysylltiedig â'r ffi archwilio. Bydd yr wybodaeth honno'n cael ei rhannu ac yn destun trafodaeth â chi yn fuan yn 2015.

Yn gywir



Richard Harries
Arweinydd Ymgysylltu
**Ar gyfer ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. |
| | | A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. |
| | | A3 Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. |
| | | A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. |
| | | A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |
| | | A5 | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A6 | Sefydlu cyfres o safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer gosodiadau a throsglwyddiadau er mwyn sicrhau bod tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn cael gwasanaeth o safon ofynnol gan eu landlord. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A7 | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru